CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion cyfarfod hybrid y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 15 Hydref 2024 am 5pm yn Siambr y Cyngor, 2 Llys Cadwyn, Stryd y Taf, Pontypridd, CF37 4TH/Zoom.

Cafodd y cyfarfod yma ei ffrydio'n fyw ac mae manylion i'w gweld yma.

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol:-

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G Stacey
Y Cynghorydd L Ellis
Y Cynghorydd S Powderhill
Y Cynghorydd J Turner
Y Cynghorydd S Bradwick
Y Cynghorydd G Holmes
Y Cynghorydd A O Rogers

Dyma'r Swyddogion oedd yn bresennol:

Ms R Hope, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Ms K Trilloe, Rheolwr Diogelu Iechyd a Thrwyddedu
Mr O Williams, Uwch Gyfreithiwr – Materion Ymgyfreitha
Ms L Warton, Swyddog Trwyddedu
Cwnstabl J Roberts – Heddlu De Cymru

29 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol D Evans, G Hughes ac W Hughes.

30 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

31 DEDDF HAWLIAU DYNOL A'R DDEDDF TROSEDD AC ANHREFN

PENDERFYNWYD nodi pan fydd Aelodau'n trafod y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

32 COFNODION

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi 2024 yn rhai cywir.

33 TRAFOD TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A GYHOEDDWYD O DAN DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD: 26.08.24 - 29.09.24

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion i Aelodau am drwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd rhwng 26 Awst 2024 a 29 Medi 2024. **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

34 TRWYDDEDU GORFODOL AR GYFER TRINIAETHAU ARBENNIG YNG NGHYMRU

Amlinellodd Rheolwr Diogelu Iechyd a Thrwyddedu yr adroddiad, a oedd yn ceisio cymeradwyaeth gan Aelodau er mwyn pennu strwythur ffïoedd addas a chynllun awdurdod dirprwyedig ar gyfer Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 mewn perthynas â thrwyddedu triniaethau arbennig.

Tynnodd Rheolwr Diogelu Iechyd a Thrwyddedu sylw Aelodau at y ffïoedd arfaethedig a nododd eu bod nhw wedi cael eu pennu fel strwythur ffïoedd Cymru gyfan fydd yn cael ei adolygu ar ôl blwyddyn o'i roi ar waith.

Rhoddwyd gwybod i Aelodau y cynigir dirprwyo'r pwerau a restrir yn yr adroddiad i Gyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned er mwyn delio â cheisiadau a materion gorfodi'n effeithlon. Hefyd, cynigir cynnwys tri phŵer ychwanegol yn y rhestr, sef Adran 65 (2) Pŵer i ddyroddi hysbysiad gwrthod ar gyfer Trwydded Triniaeth Arbennig, Adran 66 (3)(6) Pŵer i ddyroddi hysbysiad gwrthod ar gyfer Trwydded Triniaeth Arbennig ac Adran 68 Pŵer i ddyroddi hysbysiad dirymu ar gyfer Trwydded Triniaeth Arbennig.

Ar ôl i'r Pwyllgor drafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**:

1. Bod Aelodau'n cymeradwyo'r strwythur ffïoedd Cymru gyfan arfaethedig sydd i'w weld yn adran 2.2 yr adroddiad yma.

2. Dirprwyo'r pwerau a restrir yn adran 2.3 yr adroddiad yma i Gyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned er mwyn delio â cheisiadau a materion gorfodi'n effeithlon.

35 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:

PENDERFYNWYD bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr eitem nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

36 TROSOLWG O BRAWF GWYBODAETH

Rhoddodd y Swyddog Trwyddedu drosolwg o'r prawf gwybodaeth ar ffurf cyflwyniad i'r Aelodau.

PENDERFYNODD y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

37 TRAFOD Y CEISIADAU CANLYNOL AR GYFER TRWYDDEDU A/NEU GOFRESTRU:

1) Rhoddodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion y cais canlynol ar gyfer rhoi Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

   Yn unol â'r gweithdrefnau wedi'u mabwysiadu, cafodd Mr LGW ei groesawu gan yr Aelodau – roedd ei gais ger bron y Pwyllgor am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

   Ar ôl trafod yr adroddiad a'r dystiolaeth ger ei fron, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor ganiatáu'r cais yn amodol ar y telerau ac amodau safonol arferol gyda rhybudd.

2) Rhoddodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion y cais canlynol ar gyfer adolygu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

   Yn unol â'r gweithdrefnau wedi'u mabwysiadu, cafodd Mrs GD ei chroesawu gan yr Aelodau – roedd ei chais ger bron y Pwyllgor am adolygu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

   Ar ôl trafod yr adroddiad a'r dystiolaeth ger ei fron, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor roi rhybudd ysgrifenedig.

38 CRYNODEB GORFODI (GAN GYNNWYS DATA APELIADAU/ERLYNIADAU) AR GYFER Y CYFNOD: 26.08.24 - 29.09.24

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio'r adroddiad i'r Aelodau, gan amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf o ran apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod rhwng 26 Awst 2024 a 29 Medi 2024. **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

39 CRYNODEB O'R TRWYDDEDAU A GYHOEDDWYD O DAN DDARPARIAETH AWDURDOD DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD: 26.08.24 - 29.09.24

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio'r adroddiad i'r Aelodau, gan amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf o ran apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod rhwng 26 Awst 2024 a 29 Medi 2024. **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.12pm

Y Cynghorydd A Fox
Cadeirydd.